# Mewnforio sawsiau bwrdd, cyffeithiau, picls a siytni

Canllawiau ar drwyddedu, labelu, deunydd pecynnu a diogelwch cemegol wrth fewnforio sawsiau a phicls.

## Gwybodaeth gyffredinol

Rhaid i fewnforion sawsiau bwrdd nad ydynt yn cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cyffeithiau (ond nid mêl), picls a siytni o drydydd gwledydd fodloni'r un safonau a gweithdrefnau hylendid a chyfansoddiad bwyd, neu rai cyfwerth, â bwyd a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr. Fel arfer, nid oes angen tystysgrif iechyd arnoch i fewnforio'r cynhyrchion hyn.

## Trwyddedau mewnforio

Efallai na fydd angen trwydded iechyd nac hylendid arnoch chi i fewnforio bwyd, ond mae llawer o fwydydd o drydydd gwledydd yn gofyn am drwyddedau at ddibenion masnachu, ac efallai y byddant yn destun cwotâu. I gael rhagor o ganllawiau a gwybodaeth, ewch i wefan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig.

## Lliwiau, cyflasynnau a melysyddion bwyd

Gall rhai sawsiau, cyffeithiau, picls a siytni gynnwys lliwiau, cyflasynnau (flavourings) neu felysyddion bwyd. Er ei bod yn bosibl bod yr awdurdod bwyd wedi cymeradwyo'r rhain yn y wlad tarddiad, efallai na fydd rhai ohonynt wedi'u cymeradwyo ym Mhrydain Fawr. I gael gwybodaeth am gyflasynnau, melysyddion, lliwiau a chyffeithyddion, cysylltwch â'n Tîm Ychwanegion Bwyd drwy ein ffurflen ar-lein.

## Labelu

Mae gwybodaeth gyffredinol am labelu bwyd ar gael ar wefan GOV.UK.

I gael cyngor ar labelu cynhyrchion penodol, ewch i GOV.UK i ddod o hyd i Adran Safonau Masnach neu Adran Iechyd yr Amgylchedd eich awdurdod lleol.

## Cynhyrchion organig

Os ydych chi'n mewnforio cynhyrchion organig (cynhyrchion amaethyddol byw neu heb eu prosesu, cynhyrchion amaethyddol wedi'u prosesu i'w defnyddio fel bwyd neu fwyd anifeiliaid, deunydd ysgogi llystyfiant a hadau i'w tyfu), o drydydd gwledydd, ewch i GOV.UK i gysylltu â Thîm Mewnforion Organig Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). I gael gwybodaeth am reoleiddio cynhyrchion organig a safonau organig o fewn y Deyrnas Unedig (DU), cysylltwch â'r Tîm Strategaeth Organig.

## Deunydd pecynnu

Mae deunyddiau ac eitemau a ddaw i gysylltiad â bwyd, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir ar gyfer pecynnu bwyd, yn cael eu rheoli gan gyfraith y DU a ddargedwir (*retained UK law*).

Mae'r ddeddfwriaeth yn arbennig o drylwyr wrth reoli deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir eu defnyddio gyda bwyd. I gael gwybodaeth am ddiogelwch deunydd pecynnu, cysylltwch â'r Tîm Deunyddiau a Ddaw i Gysylltiad â Bwyd drwy ein ffurflen ar-lein.

## Hylendid bwyd

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau cyffredinol am hylendid bwyd, cysylltwch â'r Tîm Polisi Hylendid Bwyd.

## Cyfyngiadau mewnforio

Mae rhai cyfyngiadau/gofynion mewnforio a all fod yn berthnasol wrth fewnforio sawsiau, cyffeithiau, picls a siytni, ac mae angen i fewnforwyr fod yn ymwybodol ohonynt.

### Cynhyrchion ‘risg uwch’

Dim ond drwy borthladdoedd a meysydd awyr penodol sydd wedi’u cymeradwyo fel mannau rheoli ar y ffin y gellir mewnforio rhai bwydydd a bwydydd anifeiliaid penodol nad ydynt yn dod o anifeiliaid a gaiff eu hystyried i beri ‘risg uwch’ i Brydain Fawr. Bydd y rhain yn destun rheolaethau swyddogol. Mae cynnyrch ‘risg uwch’ yn gynnyrch bwyd neu fwyd anifeiliaid y mae’n hysbys ei fod yn peryglu iechyd y cyhoedd, neu fod hynny’n dod i’r amlwg.

Dyma restr lawn o fwydydd (nad ydynt yn dod o anifeiliaid) sydd wedi’u cyfyngu gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd.

### Afflatocsinau

Ers 1 Ionawr 2010, mae mewnforion rhai bwydydd o drydydd gwledydd penodol fel sawsiau, cyffeithiau, picls a siytni sy'n cynnwys unrhyw ffrwythau wedi’u sychu, sbeisys neu gnau, yn destun amodau arbennig oherwydd y risg o halogiad gan afflatocsinau. Bydd hyn yn golygu mai drwy borthladdoedd a meysydd awyr penodol yn unig, sy’n fannau rheoli ar y ffin dynodedig, y gellir mewnforio'r cynhyrchion hyn i Brydain Fawr, lle byddant yn destun rheolaethau swyddogol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd ar gael ar ein tudalen we ar fycotocsinau.

### Saws soi a HVP (protein llysiau wedi'i hydroleiddio)

Mae'r ddeddfwriaeth halogion uchod yn gosod terfynau ar gyfer 3-MCPD mewn saws soi a sawsiau tebyg ac ar gyfer HVP. I geisio gwybodaeth am y terfynau hyn a'r gweithdrefnau profi, cysylltwch â’r Tîm Halogion Cemegol drwy ein ffurflen ar-lein.